



Beth fyddaf yn ei ddysgu?

Bydd y cwrs hwn yn eich helpu i ddysgu:

- Sut i fod yn 'tech savvy' – gyda'r pwyslais ar greu cynnwys a systemau cyfrifiadurol yn hytrach na dim ond eu defnyddio.
- Am y cyfleon a'r sgiliau sydd ei hangen yn y sector TG a'r diwydiannau creadigol e.e. datblygu gemau cyfrifiadurol.
- Am y mathau o swyddi a chwmnïau y medrech weithio ynddynt a'r agwedd sydd ei angen er mwyn gweithio yn y sector Technoleg Gwybodaeth Creadigol.

Sut fyddaf yn dysgu?

Mae'r cwrs yn cael ei ddysgu ar safle Coleg Menai yn Llangefni am 2 flynedd (Blwyddyn 10 ac 11). Fydd y cwrs ymlaen rhwng 4yh – 6yh un waith yr wythnos am y ddwy flynedd, ac mae cludiant ar gael o ac yn ôl i'ch ysgol. Mae'r cwrs yn gymysgedd o dasgau ystafell ddosbarth ac ymarferol. Byddwch yn cael cyfle i baratoi ac ymarfer eich sgiliau cyn ei chi gael eich asesu, fel eich bod yn gwybod a deall yr hyn y byddwch yn gorfod ei wneud.

Beth fyddaf ei angen?

Profiad a brwdfrydedd wrth ddefnyddio cyfrifiaduron, yn ddelfrydol mewn creu cynnwys.

Sut fyddaf yn cael fy asesu?

Trwy berfformiad mewn aseiniadau a gwaith ymarferol a asesir yn bennaf gan eich tiwtor cwrs. Byddwch hefyd yn creu portffolio o waith, ynghyd ac yn sefyll arholiad allanol ar gyfer yr uned craidd.

Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs hwn?

Ar ôl Blwyddyn 11, gallwch fynd ymlaen i gwrs llawn amser Diploma Estynedig BTEC Lefel 3. Gallwch hefyd ddewis cymwysterau addas eraill, yn dibynnu ar yr hyn yr hoffech edrych arno nesaf. Bydd eich ymgynghorydd gyrfau yn medru eich helpu gyda'ch dewisiadau pan adewch yr ysgol.

Syniadau am Swyddi!

- Peiriannydd Meddalwedd
- Rheolwr Cynnwys Gwefan
- Animeidddydd Cyfrifiadurol
- Dylunydd Graffeg

Eisiau gwybod mwy?

I ddarganfod mwy am y cwrs hwn, dylech ymweld â'r dudalen we ganlynol: <http://qualifications.pearson.com/en/qualifications/btec-firsts/information-and-creative-technology-2012-nqf.html>

Neu cysylltwch â: www.gyrfacymru.com